

Cyngor Cymuned Cerrigydrudion

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 2ail Orffennaf 2019

Presennol - Ffuon Williams, Cadeirydd, Guto G Jones, Einion Edwards, Prys Ellis, Trystan Humphreys, Mennai Hughes, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau , Ieuan Jones, John D Jones, Maria Roberts, Cyng Peter Lewis.

Ethol Cadeirydd / Is Gadeirydd

Penderfynwyd yn unfrydol i ethol Ffuon Williams yn Gadeirydd a Maria Roberts yn Is Gadeirydd
Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 28ain Fai 2019.

Materion yn Codi

[1] Yr Heddlu

Yn dilyn ymholiad ynglŷn â difrod a wnaed yn nhoiledau y llan, deallwyd nad oedd yr heddlu yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiad.

[1.1] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys/ Tocio'r Coed

Dywedodd y clerc fod John D Jones yn trefnu ar gyfer gwneud y gwaith.

[1.2] Ffermydd Gwynt/ Cyfraniad Clean Earth

Nodwyd fod £100 yn weddill a penderfynwyd i wneud cyfraniad i Ysgol Cerrig-y-Drudion tuag at weithgareddau yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst.

[1.3] Pont Pentrellyncymer

Nodwyd ateb oddiwrth Cyngor BS Conwy mai diffyg arian oedd y rheswm am yr oedi ond bod trefniadau wedi ei gwneud i atgyweirio'r bont.

[1.4] Arwydd Stryd King / Yr Ysgol

Dywedodd y clerc nad oedd gair pellach wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir [Will Roberts] ynglŷn â'r posibilrwydd addasu'r arwydd ar gyfer lleoliad gyferbyn a'r ysgol.

[1.5] Cais Helen Williams / Cae Llwyd

Penderfynwyd nad oedd y Cyngor yn gytûn i werthu darn o'r cae I Ms Helen Williams

[1.6] Strategaeth Hiraethog

Y clerc i anfon gwahoddiad i Eirian Jones a chynrychiolaeth o bwyllgor y ganolfan i gyfarfod nesaf y Cyngor

Y brif Agenda

[1.7] Adroddiad Argymhellion Terfynol o Drefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyfeiriodd y clerc at yr adroddiad yn argymhell bod Cymunedau Cerrig-y-Drudion, Llanfihangel GM, Llangwm a Phentrefoelas i ffurfio ward etholiadol o 1,411 o etholwyr, gyda'r enw unigol Uwch Aled

[1.8] Trafferthion mynediad gan Ymatebwyr Brys i Maes-y-Ffynnon

Deallwyd bod moduron yn parcio ar fin y ffordd ac yn creu trafferthion i ymatebwyr brys, y clerc i anfon at y Cyngor Sir yn gofyn am gynnwys y lleoliad yn yr adolygiad parcio sydd ar hyn o bryd o dan sylw.

[1.9] Llythyrau o ddiolch

Nodwyd llythyrau o ddiolch am gyfraniad ariannol

[a] Clwb snwcer Cerrig-y-Drudion

[b] Merched y Wawr Uwchaled

[2] Talu biliau

Siec 101053 Merched-y-Wawr [Cyfraniad] £200.00

054 E C Roberts, bocsys blodau £60.00

055 Dwr Cymru, treth £9.57

056 Siop Uwchaled, defnyddion £7.64

057 Scottish Power £34.45

058 Elusen Ellis Davies [Cyfraniad] £200.00

059 Haydn Roberts, torri gwair £140.00

Cadeirydd _____